**Cyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi**

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd am 11:00am ddydd Llun 1 Mehefin yn Ystafell Gynadledda 6, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd.

**Gweinidogion a oedd yn bresennol**
Y Prif Weinidog
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (Eitem 4 ar yr agenda)
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (Eitem 5 ar yr agenda)
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (Eitem 6 ar yr agenda)

**Rhanddeiliaid a oedd yn bresennol**
Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig – Ben Cottam
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain – Emma Watkins
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain – Leighton Jenkins
Cadeirydd Commerce Cymru – Paul Byard
Y Sefydliad Marchnata Siartredig – Richard Houdmont
Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr – Ifan Glyn
Y Ffederasiwn Busnesau Bach – Iestyn Davies
Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr – Martin Warren
Sefydliad y Cyfarwyddwyr – Robert Lloyd Griffiths
Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig – David Morgan
Siambr Fasnach De Cymru – Keith Palmer
Cymdeithas y Cyfreithwyr – Lowri Morgan
Canolfan Cydweithredol Cymru – Derek Walker
TUC Cymru – Alex Bevan
TUC Cymru – Martin Mansfield
TUC Cymru – Nick Ireland
Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru – Heather Eason (Sylwedydd)
Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru – Mark Judd (Sylwedydd)
Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru – Nigel Keane

**Ymddiheuriadau**
Y Cyngor Benthycwyr Morgeisi – Peter Hughes
Y Fforwm Busnesau Preifat – Phil Orford
Sefydliad y Cyfarwyddwyr – Huw Roberts
Y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi – Mark Harris
Y Gymdeithas Cludo Nwyddau ar y Ffyrdd – Nick Payne
Y Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau – Ian Gallagher

**Cynghorwyr arbennig a swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Derek Jones, Yr Ysgrifennydd Parhaol | James Price |
| Andrew Bold | Tracey Burke |
| Kerry Stephens – Eitem 4 ar yr agenda | Andrew Jeffreys |
| Maureen Howell – Eitem 5 ar yr agenda | Huw Morris |
| Daniel Jones – Eitem 6 ar yr agenda | Jonathan Price |
| Melanie Kinsey – Cofnodwr | Huw Griffiths – Cofnodwr |

## 1. Cyflwyniadau a sylwadau agoriadol

1.1 Agorodd y Prif Weinidog y cyfarfod drwy groesawu'r aelodau a nododd y prif eitemau ar yr agenda:

- Nodiadau a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf
- Crynhoi'r sefyllfa o ran yr economi
- Caffael
- Trechu tlodi
- Diwygio llywodraeth leol a datblygu economaidd

1.2 Roedd un papur i'w nodi ynghylch Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru.

1.3 Esboniodd y Prif Weinidog y byddai'r Gweinidog Cyllid yn bresennol ar gyfer eitem 4 ar yr agenda ynghylch caffael, y byddai'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn bresennol ar gyfer eitem 5 ynghylch trechu tlodi, ac y byddai'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn bresennol ar gyfer eitem 6 ynghylch diwygio llywodraeth leol a datblygu economaidd.

## 2. Nodiadau a chamau gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2015

2.1 Gofynnodd y Prif Weinidog a oedd gan unrhyw un sylwadau ar y nodiadau ac a oedd unrhyw faterion yn codi ynghylch cywirdeb y nodiadau – ni wnaed unrhyw sylwadau ac ni chodwyd unrhyw faterion.

2.2 Cytunwyd bod y nodiadau'n gofnod cywir o'r cyfarfod diwethaf.

2.3 Gwnaethpwyd y sylwadau canlynol ar gamau gweithredu'r cyfarfod diwethaf:

2.3.1 Nododd y Prif Weinidog nad yw'r cam gweithredu ynghylch trefnu bod Jonathan Price ac Iestyn Davies yn trafod amrywiadau is-ranbarthol yng nghyd-destun y DU, a'r potensial sydd i archwilio dadansoddiad ar lefel NUTS 3 er mwyn creu darlun economaidd, wedi'i gwblhau eto.

| |
|---|
| Gweithredu: Y cam gweithredu ynghylch trefnu bod Jonathan Price ac Iestyn Davies yn trafod amrywiadau is-ranbarthol yn parhau. |

2.3.2 **Diwygio Lles** – Dywedodd y Prif Weinidog fod hwn yn gam gweithredu sy'n parhau ac y gallai newidiadau i'r system les gael eu hamlinellu yn natganiad Llywodraeth y DU ar y gyllideb, a ddisgwylir ar 8 Gorffennaf. Awgrymodd y Prif Weinidog y dylai'r Gweithgor Gweithredol ystyried y mater hwn fel eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Cyngor ym mis Hydref.

| |
|---|
| Gweithredu: Y Gweithgor Gweithredol i ystyried Diwygio Lles fel eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Cyngor ym mis Hydref. |

## 3. Trafodaeth i grynhoi'r sefyllfa o ran yr economi

3.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog yr eitem hon gan nodi bod y cynnydd mewn Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario yn galonogol iawn ond bod rhai heriau'n gysylltiedig o hyd â chynyddu lefelau cynhyrchiant.

3.2 Gofynnodd y Prif Weinidog i Jonathan Price roi ei farn am yr adroddiad.

3.3 Rhybuddiodd Jonathan Price yr aelodau ynghylch y defnydd a wneir o ddata am y farchnad lafur, oherwydd gall fod yn anwadal ac mae angen canolbwyntio ar dueddiadau tymor hwy. Dywedodd fod Cymru, er gwaethaf cyfres o fisoedd gwannach, wedi bod yn efelychu perfformiad y DU yn gyffredinol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. O edrych ar y sefyllfa dros y tymor canolig i'r tymor hir, mae Cymru wedi cau'r bwlch rhyngddi hi a'r DU o safbwynt perfformiad y farchnad lafur, a chaiff hynny ei adlewyrchu yn y ffigurau cadarnhaol ar gyfer cynnydd mewn incwm aelwydydd. Dywedodd nad ydym yn llwyddo gystal o ran y ffigurau ar gyfer cynnyrch domestig gros, ond hyd yn oed o ran hynny mae Cymru wedi bod yn perfformio'n llawn cystal yn gyffredinol â'r DU dros y tymor canolig.

3.4 Tynnodd Jonathan Price sylw at y ffaith bod cynnydd mewn cynhyrchiant yn parhau'n broblem fawr wrth symud ymlaen ar lefel Cymru ac ar lefel y DU, a holodd pryd y byddai cynhyrchiant yn gwella. Dywedodd y byddai'n gwerthfawrogi unrhyw wybodaeth sydd gan aelodau'r Cyngor am hynny.

3.5 Cyfeiriodd y Prif Weinidog at sylwadau'r Arglwydd Bamford ynghylch effaith rheoliadau a pholisïau'r Undeb Ewropeaidd ar fusnes. Nododd y Prif Weinidog hefyd fod y sector adeiladu'n gweld effaith economaidd gadarnhaol ar hyn o bryd a dywedodd ei fod yn pryderu nad oedd y twf yn y sector adeiladu'n cael ei adlewyrchu efallai mewn sectorau economaidd eraill.

3.6 Nododd Jonathan Price fod y data swyddogol am dwf yn y sector adeiladu'n gymysg, er ei bod yn debygol mai cael gwybodaeth gan y diwydiant adeiladu bod y sector yn gwneud yn dda fyddai'r dangosydd gorau. Nododd fod arwyddion o adfywiad ym maes gwasanaethau busnes ond bod y ffigurau ar gyfer gweithgynhyrchu ac allforio'n siomedig ac yn adlewyrchu gwendidau yn Ardal yr Ewro ar hyn o bryd.

3.7 Agorodd y Prif Weinidog yr eitem hon i'w thrafod yn ehangach. Adleisiodd Emma Watkins y pryderon ynghylch cynhyrchiant. Nododd fod twf i'w weld yn gyffredinol, gan dynnu sylw at y ffaith bod gwahaniaethau mewn sectorau a bod y sector manwerthu a gwasanaethau yn tyfu'n gryf a bod y sector adeiladu'n gwneud yn dda. Nododd bryder ynghylch gweithgynhyrchu ac allforio.

3.8 Soniodd Derek Walker am ganfyddiadau'r ymchwil a wnaed i'r sector mentrau cydfuddiannol, cydweithredol a chymdeithasol yng Nghymru. Dywedodd nad oedd yn bosibl cymharu oherwydd bod chwe blynedd wedi mynd heibio ers y tro diwethaf i'r wybodaeth hon gael ei chasglu, a nododd y byddai'r canfyddiadau'n darparu gwaelodlin ar gyfer mesur llwyddiant ymyriadau yn y dyfodol. Roedd y canfyddiadau'n tynnu sylw at nifer uwch o fusnesau newydd yn y sector hwn o gymharu â busnesau bach a chanolig yn fwy cyffredinol. Yn ei farn ef, yr hyn a

oedd i gyfrif am y ffaith honno oedd yr amgylchedd cadarnhaol o ran polisi yng Nghymru, sy'n dangos bwriad clir i gefnogi ac ymwybyddiaeth gynyddol o'r sector.

3.9 Dywedodd Richard Houdmont fod ymchwil diweddar yn tynnu sylw at y ffaith mai'r unig beth yr oedd busnesau bach a chanolig am ei wneud yn aml oedd cynnal eu sefyllfa bresennol, ac nad oeddent am geisio tyfu. Dywedodd fod angen efallai i'r Llywodraeth hyrwyddo twf.

3.10 Soniodd y Prif Weinidog am waith blaenorol a wnaed i ystyried y ffactorau diwylliannol sy'n rhwystro twf. Dywedodd nad yw'r rhwystrau i fusnesau mor fawr ag y mae rhai'n ei feddwl, a bod angen annog y sawl sy'n awyddus i dyfu.

3.11 Nododd Keith Palmer yr arolwg economaidd chwarterol diweddaraf nad oedd yn amlygu unrhyw wahaniaeth rhwng hyder y sector adeiladu a hyder sectorau eraill. Dywedodd fod hanner cant y cant o fusnesau wedi nodi cynnydd mewn archebion a chynnydd mewn allforion.

3.12 Cyfeiriodd Ifan Glyn at y twf yn y sector adeiladu. Soniodd am yr holl brosiectau a oedd yn yr arfaeth ac am yr angen i fusnesau bach a chanolig fod mewn sefyllfa i ymateb i'r cyfleoedd y mae'r prosiectau hyn yn eu cynnig. Nododd fod bwlch o ran sgiliau'n broblem fawr i aelodau Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr. Cyfeiriodd at y ffaith bod microfusnesau'n disgwyl cael cymorth ar gyfer prentisiaethau ac nad yw'r sefyllfa gyfredol o ran polisi'n hollol ddealladwy efallai. Awgrymodd fod angen cyfleu'r neges bod ymgymryd â phrentisiaethau'n ymdrech ar y cyd ac y dylid annog cwmnïau i chwarae eu rhan.

3.13 Cyfeiriodd y Prif Weinidog at sylwadau a wnaed gan gwmnïau adeiladu ynghylch pa mor anodd y mae i gael gafael ar sgiliau adeiladu arbenigol, a bod rhai cwmnïau'n chwilio am weithwyr medrus mewn gwledydd eraill. Gwahoddodd farn ynghylch a oedd angen datblygu sgiliau arbenigol yng Nghymru.

3.14 Nododd Ifan Glyn fod Morlyn Llanw Bae Abertawe yn enghraifft o brosiect mawr arfaethedig a fyddai'n gofyn am sgiliau arbenigol. Roedd yn gobeithio y byddai colegau'n hyfforddi pobl er mwyn darparu'r gweithwyr medrus y byddai eu hangen ar gyfer y prosiect hwn.

## 4. Caffael

4.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog y papur ynghylch caffael, gan nodi fod cyfraniadau a her gan y Gweithgor Gweithredol wedi dylanwadu ar gynnwys y papur. Aeth y Prif Weinidog yn ei flaen i gyflwyno'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth a gyflwynodd y papur.

4.2 Diolchodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i'r aelodau a oedd wedi cyfrannu i drafodaethau ynghylch y mater hwn, a rhannodd y wybodaeth ddiweddaraf am gaffael yng Nghymru. Dywedodd fod hwn yn gyfnod o newid ym maes caffael wrth i Gyfarwyddeb newydd gan yr Undeb Ewropeaidd gael ei gweithredu i ddarparu cymorth rheoleiddiol ac adnoddau newydd i'r sector cyhoeddus er mwyn cynyddu cyfleoedd ym maes datblygu economaidd. Nododd ein bod yn agos at gael yn swyddogol y pwerau i reoleiddio. Cadarnhaodd y

Gweinidog ei bod yn bwriadu cyflwyno datganiad wedi'i ddiweddaru ynghylch y polisi caffael i'r Cynulliad ar 16 Mehefin.

4.3 Tynnodd y Gweinidog sylw at y prif ddatblygiadau a oedd yn cynnwys y canlynol:

- yr egwyddor cymesuredd wedi'i chynnwys yn y gyfraith, a fydd yn helpu i leihau biwrocratiaeth;
- y ffaith bod y rheoliadau newydd yn ffafriol i fusnesau bach a chanolig, a'r angen i gyfiawnhau pan na ddefnyddir mesurau i sicrhau bod contractau'n addas i fusnesau bach a chanolig, a gofyniad o blaid lotiau llai o faint;
- rheolau cliriach, gan gynnwys rhai'n ymwneud ag ymgysylltu'n gynnar â busnesau ar ddechrau'r broses a gweithdrefn newydd sy'n ymwneud â Phartneriaeth Arloesi;
- y gwaith o ddarparu contractau'n cael ei ymestyn, gyda'r posibilrwydd o ehangu mynediad i gwmnïau yn y trydydd sector a busnesau a gynorthwyir.

4.4 Dywedodd y Gweinidog ei bod yn disgwyl i bwerau newydd fod mewn grym erbyn yr hydref a bod ei swyddogion yn datblygu cyngor rheoleiddiol er mwyn symud y broses o fabwysiadu polisïau yn ei blaen.

4.5 Yn ogystal, dywedodd y Gweinidog fod y dull gweithredu sy'n seiliedig ar Fudd i'r Gymuned yn enghraifft dda o sefyllfa lle mae Cymru yn arwain y ffordd, a bod enghreifftiau go iawn i'w cael o fanteision y dull hwn o weithredu, sy'n cynnwys bron 800 o swyddi newydd, 21,000 o wythnosau o hyfforddiant a sefyllfa lle caiff 84% o wariant ei ailfuddsoddi yng Nghymru. Dywedodd fod yr holl Weinidogion yn ymwneud â'r gwaith a bod y dull gweithredu'n rhan o nifer o raglenni, er enghraifft Ysgolion yr 21ain Ganrif a Safon Ansawdd Tai Cymru.

4.6 Dywedodd y Gweinidog fod Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei sefydlu i ddatblygu ffordd ymlaen ar gyfer prosiectau caffael mawr a phrosiectau a ariennir gan grantiau.

4.7 Dywedodd y Gweinidog fod y datblygiadau hyn yn digwydd mewn cyd-destun lle mae pwysau ar gyllid cyhoeddus yn gwneud pethau'n anodd. Rhoddodd sylwadau ynghylch y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a oedd wedi rhagori ar ei dargedau gan fod gwerth £6 miliwn o arbedion sy'n rhyddhau arian wedi'u nodi yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

4.8 Nododd y Gweinidog lwyddiannau, er enghraifft, yn y fframwaith ar gyfer Iechyd Galwedigaethol a Gwasanaethau Cysylltiedig, lle mae 15 o'r 20 o gyflenwyr yn fusnesau bach a chanolig o Gymru. Nododd y Gweinidog hefyd fod cynlluniau ar y gweill, yn rhan o'r cynllun busnes pedair blynedd a gaiff ei lansio'r mis nesaf, i ymestyn categorïau contractau i dros £2 biliwn yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

4.9 Dywedodd y Gweinidog y bydd mwy o dryloywder a chyfleoedd i gwmnïau flaengynllunio. Nododd y Gweinidog fod Cymru wedi gwneud llawer o gynnydd dros y pum mlynedd diwethaf, a bod gan y pwerau cynyddol hyn y potensial i greu swyddi a chyfleoedd hyfforddi mewn meysydd allweddol.

4.10 Agorodd y Prif Weinidog y mater hwn i'w drafod yn ehangach. Croesawodd Iestyn Davies y gwaith sy'n digwydd ers amser i gyflawni ar sail y maes polisi hwn. Gofynnodd i ba raddau y mae'r fframweithiau yn sicrhau budd i gwmnïau a'r gymuned fel ei gilydd.

4.11 Soniodd Iestyn Davies am y pryderon blaenorol ynghylch gallu cwmnïau o Gymru i gyflwyno cynigion am gontractau, a gofynnodd a ydym erbyn hyn yn gweld mwy o gapasiti. Awgrymodd hefyd y dylai'r dull gweithredu roi ystyriaeth fwy ansoddol i'r fframwaith a'r strategaeth sydd ar waith, ac roedd yn edrych ymlaen at gydweithio â Llywodraeth Cymru ar y maes hwn.

4.12 Croesawodd Martin Mansfield y cyfle i ystyried y papur, ei herio ac archwilio'r problemau. Dywedodd fod y papur yn ymateb i'r cwestiynau a godwyd gan y Gweithgor Gweithredol. Roedd yn croesawu'r cynnydd a wnaed o safbwynt budd i'r gymuned, a nododd y sylw mewn astudiaeth strategol yn y DU gan Gymdeithas y Gyfraith Ddiwydiannol, sef bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud mwy o gynnydd na rhannau eraill o'r DU ynghylch y mater hwn. Awgrymodd fod lle i wella o hyd a dywedodd na chaiff yr adnodd mesur ei ddefnyddio mor eang ag y gallai.

4.13 Dywedodd fod y Dynodiad Cyffredinol yn darparu cyfle i wneud cynnydd pellach a rhoi statws rheoleiddiol i fudd i'r gymuned. Gallai hynny ddarparu cyfle arbennig i Lywodraeth Cymru drechu tlodi a darparu cyfleoedd ym maes datblygu economaidd mewn ardaloedd difreintiedig. Dywedodd y gallai neilltuo contractau alluogi uchelgeisiau o ran polisi o safbwynt sicrhau bod grwpiau dan anfantais yn cael swyddi ac o safbwynt trechu tlodi mewn ardaloedd megis Blaenau'r Cymoedd, lle mae ymyrraeth gan y llywodraeth yn bwysicach.

4.14 Dywedodd Richard Houdmont y dylem ystyried y sgiliau sy'n gysylltiedig â gwerthu hefyd a soniodd am arolwg diweddar a oedd yn tynnu sylw at ddiffyg sgiliau marchnata penodol mewn rhai busnesau. Awgrymodd fod angen i gwmnïau allu eu marchnata eu hunain yn dda a bod terfyn ar y cymorth y gall Llywodraeth ei ddarparu.

4.15 Awgrymodd Robert Lloyd Griffiths fod gan Busnes Cymru rôl i'w chwarae o safbwynt cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r sgiliau hyn.

4.16 Nododd y Prif Weinidog nad oes digon o fusnesau weithiau sy'n gallu cyflawni contractau. Un enghraifft o hynny yw contractau bwyd, lle mae'r broblem wedi'i datrys wrth i fusnesau bach a chanolig gydweithio â'i gilydd. Ychwanegodd nad oes a wnelo'n unig â'r Llywodraeth yn cynnig cyfle i gyflwyno cynnig; rhaid hefyd bod cwmnïau mewn sefyllfa i gyflenwi.

4.17 Cododd Iestyn Davies bwynt ynghylch deall y lefel nesaf o ddata ac, os oes diffyg sgiliau marchnata mewn rhai busnesau bach a chanolig, y dylid eu targedu. Nododd fod angen i fusnesau, os ydynt yn dymuno bod yn rhan o lwyddiant economaidd, gael y sgiliau a'r dulliau gweithredu cywir, er enghraifft cadwyni cyflenwi busnes-i-fusnes.

4.18 Awgrymodd David Morgan fod angen archwilio cysylltiadau trafnidiaeth hefyd.

4.19 Cododd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth bwynt ynghylch sut y mae cwmnïau'n caffael gyda'i gilydd. Dywedodd y Gweinidog fod y GIG yn gorff mawr sy'n caffael a dywedodd fod y Gweinidog Iechyd wrthi'n ystyried caffael yn y sector hwn. Awgrymodd y Gweinidog y gallai dull mwy rhagweithiol o gaffael osgoi achosion o ddyfarnu contractau'n awtomatig i gyflenwyr mawr, sy'n fodd i leihau risg, ac awgrymodd y dylai Busnes Cymru chwarae rôl ehangach. Roedd y Gweinidog yn cydnabod bod problemau'n bodoli o safbwynt marchnata a thrafnidiaeth ond roedd hefyd yn cydnabod nad oedd rhai cwmnïau'n awyddus i dyfu. Nododd y Gweinidog y cyfleoedd a oedd yn gysylltiedig â dull gweithredu sy'n seiliedig ar fudd i'r gymuned ar gyfer cyflogaeth mewn ardaloedd sydd mewn angen. Awgrymodd y Gweinidog fod meysydd lle gallem fod yn fwy rhagweithiol, er enghraifft drwy nodi rhestrau o gyflenwyr o Gymru ar gyfer sectorau, a allai gael eu hystyried yn y lle cyntaf. Nododd y Gweinidog fod angen i ni ddysgu gwersi gwledydd eraill ynghylch y mater hwn.

4.20 Dywedodd Derek Walker y byddai'n ddefnyddiol cael gwybodaeth am y graddau y mae trefniadau consortia wedi bod yn llwyddiannus fel adnodd i helpu busnesau bach a chanolig ennill contractau.

4.21 Adleisiodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth sylwadau Iestyn Davies ynghylch gwerth gwaith dadansoddi ansoddol a nododd ein bod, heb os, yn gwneud cynnydd. Dywedodd y bydd y dynodiadau cyffredinol yn gam mawr ymlaen ac y byddant yn ein galluogi i reoleiddio'n effeithiol o safbwynt sawl agwedd. Soniodd am yr angen i weithio gyda sefydliadau cymorth busnes er mwyn helpu i ddatblygu strategaeth gaffael.

4.22 Cytunodd y Gweinidog na ddylem fod yn hunanfodlon ynghylch y mater sy'n ymwneud â budd i'r gymuned. Dywedodd fod oedi'n gysylltiedig â chofnodi cynnydd gan ddefnyddio'r adnodd, a'i bod yn debygol bod amcan rhy isel yn cael ei roi o'r gwir fudd. Awgrymodd y gellid defnyddio pwerau newydd i reoleiddio'r defnydd a wneir o'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar fudd i'r gymuned. Cydnabu'r Gweinidog yr angen i ystyried traddodiadau, er enghraifft yn y GIG, ac ystyried ffyrdd gwahanol o wneud pethau. Soniodd am bwysigrwydd cyfathrebu a hysbysebu gwybodaeth am gyfleoedd newydd.

4.23 Nododd y Gweinidog y pwyntiau a godwyd gan yr aelodau ynghylch sgiliau a chytunodd fod datblygu sgiliau perthnasol yn hanfodol. Nododd hefyd fod angen dileu rhwystrau a soniodd am y gwaith a oedd wedi'i wneud i ddiweddaru'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr.

4.24 Cyfeiriodd y Gweinidog at gonsortia a dulliau o gyflwyno cynigion ar y cyd a nododd mor ddefnyddiol oedd y canllawiau a luniwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru ynghylch cyflwyno cynigion ar y cyd. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn i'r Cyngor am drefniadau cyflwyno cynigion ar y cyd a'r consortia newydd a oedd wedi'u sefydlu.

| |
|---|
| Gweithredu: Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i ddarparu nodyn i'r Cyngor am drefniadau cyflwyno cynigion ar y cyd a'r consortia newydd a oedd wedi'u sefydlu. |

4.25 Nododd y Gweinidog y gwaith a oedd yn cael ei gyflawni yng nghyswllt Cynllun Bwyd Prydain a chyfleoedd i'r sector preifat yn y maes hwn. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n darparu diweddariad pellach i'r Cyngor ynghylch y pwerau newydd a'r cyfleoedd cysylltiedig yn yr hydref.

| |
|---|
| Gweithredu: Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i ddarparu diweddariad pellach i'r Cyngor ynghylch caffael yn yr hydref. |

## 5 Trechu tlodi

5.1 Croesawodd y Prif Weinidog y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i'r cyfarfod.

5.2 Cyflwynodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yr eitem hon gan bwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu â'r sector preifat a chydweithio er mwyn gwella aelwydydd ag incwm isel yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog fod trechu tlodi yn flaenoriaeth allweddol a gaiff ei hybu gan holl aelodau'r Cabinet.

5.3 Cyfeiriodd y Gweinidog at y ffigurau tlodi yng Nghymru a'r amryw ffactorau sydd ar waith ac sy'n dylanwadu ar dlodi, megis y system dreth a budd-daliadau, a'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i atal a lleihau tlodi a lleddfu ei effeithiau.

5.4 Nododd y Gweinidog fod yr angen i weithio gyda phartneriaid allanol yn thema allweddol a oedd yn ymddangos o'r gwerthusiad o'r Strategaeth Tlodi Plant, a thynnodd sylw at y gwaith hollbwysig a gâi ei wneud gyda darparwyr cyhoeddus a'r trydydd sector. Soniodd fod y sefydliadau yr oedd Aelodau'r Cyngor yn eu cynrychioli eisoes yn gwneud cyfraniad pwysig yn y maes hwn a thynnodd sylw at y cymorth a roddir i gynlluniau megis Esgyn, Prentisiaethau a Twf Swyddi Cymru.

5.5 Cyfeiriodd y Gweinidog at yr ymrwymiad sydd yn y Strategaeth Tlodi Plant Ddiwygiedig i ymgysylltu ag ystod o wahanol gynrychiolwyr ac adnabod cyfleoedd i weithio ar y cyd. Cyfeiriodd y Gweinidog yr Aelodau at y Papur sy'n egluro dull Llywodraeth Cymru o drechu tlodi ac sy'n nodi nifer o gwestiynau y dylai'r Aelodau eu hystyried. Gwahoddodd y Gweinidog farn am y cwestiynau hyn.

5.6 Soniodd Ben Cottam am drafodaethau a oedd yn cael eu cynnal gan ei sefydliad ef ynghylch symudedd cymdeithasol a thynnodd sylw at bryderon ynghylch terminoleg. Awgrymodd fod cyfle i wella gwaith ymgysylltu rhwng busnesau ac ysgolion a cholegau ynghylch symudedd cymdeithasol. Dywedodd mai dim ond 8 y cant o fusnesau sy'n darparu interniaethau ar hyn o bryd a gwahoddodd Weinidogion a chydweithwyr i ystyried a ellid gwneud mwy i hybu interniaethau. Cyfeiriodd at raglenni Career Ready a rhaglenni hyrwyddwyr fel enghreifftiau eraill o'r modd y gall ysgolion a cholegau ymgysylltu â byd busnes a chyflwyno pobl i fyd gwaith.

5.7 Soniodd Nick Ireland am y broblem sy'n ymwneud â thangyflogaeth, a'r ffaith nad yw cyflog byw'n ddigon i fynd i'r afael ag enillion isel os na all pobl sicrhau digon o oriau o waith. Dywedodd fod arolygon o aelodau ei sefydliad ef wedi dangos bod pobl yn ei chael yn anodd cael deupen llinyn ynghyd. Soniodd am broblemau'n ymwneud â thrafnidiaeth, yn enwedig i bobl sy'n gweithio sifftiau. Awgrymodd fod meysydd i'w cael lle gellid gwneud gwelliannau, er enghraifft o safbwynt y defnydd a wneir o amodau cymorth gwladwriaethol. Rhoddodd sylwadau hefyd ynghylch rôl undebau llafur a'r modd y gallai gwelliannau o safbwynt bargeinio ar y cyd gynorthwyo'r maes hwn.

5.8 Awgrymodd Paul Byard y dylai'r Cyngor ailystyried y Fframwaith Economaidd ar gyfer Buddsoddi er mwyn gweld sut y gellir defnyddio cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd yn well i ddatrys rhai o'r problemau hyn. Soniodd hefyd fod angen i ni ystyried y darlun ehangach a mynd i'r afael â rhai o achosion sylfaenol tlodi.

5.9 O ran y pwynt ynghylch cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd, awgrymodd Iestyn Davies mai'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni fyddai yn y sefyllfa orau i ystyried y mater hwn. Adleisiodd bryderon Paul Byard a chytunodd fod angen ystyriaeth fwy hirdymor i gyflawni gwaith diwygio strwythurol. Roedd yn cydnabod nad yw Llywodraeth Cymru yng ngofal polisi cyllidol ond nododd fod rhai pethau y gall Llywodraeth Cymru eu gwneud. Soniodd am waith y Resolution Foundation ym maes cynyddu cyflogau a chynllunio pensiynau. Roedd o blaid pwyllo oherwydd bod problem fwy dwfn yn bodoli na'r hyn y gall ymatebion byrdymor megis y Cyflog Byw fynd i'r afael ag ef.

5.10 Soniodd Emma Watkins am y gwaith a wneir gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain i sicrhau bod twf o fudd i bawb, a soniodd am y modd y gall byd busnes gefnogi hynny. Rhoddodd sylwadau ynghylch pwysigrwydd hyblygrwydd yn y farchnad lafur ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr drwy newidiadau i sifftiau a throsglwyddiadau, ac awgrymodd y bydd angen i'r Cyngor drafod y Cyflog Byw. Roedd hefyd yn cydnabod bod rhai ysgogiadau y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru. Soniodd am yr angen i gynyddu'r ddarpariaeth o ran gofal plant am ddim a gweithio ar leihau Yswiriant Gwladol i rai gweithwyr, a chynigiodd barhau i drafod hynny â'r swyddogion.

5.11 Roedd Emma Watkins yn cefnogi pwynt Ben Cottam ynghylch symudedd cymdeithasol a dywedodd ei bod yn bwysig ystyried rôl ysgolion.

5.12 Dywedodd David Morgan ei fod ef hefyd yn cefnogi'r sylwadau a wnaed ynghylch symudedd cymdeithasol.

5.13 Awgrymodd Martin Mansfield newid yn y derminoleg sy'n ymwneud â budd i'r gymuned. Mae'r budd hwnnw'n aml yn gysylltiedig â chymorth cyffredinol i'r gymuned, megis nawdd i dimau chwaraeon lleol. Pwysleisiodd y dylai fod yn gwbl glir bod budd i'r gymuned yn golygu budd lleol o ran cyflogaeth, a swyddi a hyfforddiant. Dywedodd Martin Mansfield fod Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i ddangosyddion yn darparu cyfleoedd i sicrhau bod y sector cyhoeddus yn cyflawni'n lleol o ran trechu tlodi. Ychwanegodd eu bod hefyd yn darparu cyfleoedd i gefnogi cyflogaeth foddhaol. Er mwyn cyflawni hynny,

awgrymodd y byddai angen i nodau a dangosyddion gael eu diffinio a'u defnyddio'n ofalus.

5.14 Soniodd Keith Parker am ganlyniad arolwg a gynhaliwyd gan ei sefydliad ef. Canfu'r arolwg fod hanner cant y cant wedi recriwtio staff ychwanegol yn ystod y tri mis diwethaf a bod traean arall yn bwriadu recriwtio yn ystod y tri mis nesaf. Dywedodd fod yr adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod diffyg sgiliau'n rhwystro gwaith recriwtio, oherwydd roedd chwe deg pump y cant o'r ymatebwyr wedi nodi bod hynny'n broblem. Dywedodd ei bod yn bwysig bod pobl yn barod ar gyfer gwaith a bod ganddynt y sgiliau perthnasol.

5.15 Awgrymodd Paul Byard y gellid nodi nifer y prosiectau a oedd wedi'u gwella drwy gymorth gan Lywodraeth Cymru. Awgrymodd hefyd y dylid cymell sectorau i ddarparu nifer penodol o gyfleoedd. Cyfeiriodd at alwad y Comisiwn Ewropeaidd i gynyddu cyfran y cynnyrch domestig gros sy'n deillio o weithgynhyrchu o 16 y cant i 20 y cant, ac awgrymodd y gallai cyfleoedd fod ar gael drwy gyllid yr Undeb Ewropeaidd.

5.16 Dywedodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ei bod yn amlwg bod diffyg sgiliau'n broblem a bod hynny wedi'i drafod â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau. Cyfeiriodd at waith y Bwrdd Gweithredu Trechu Tlodi a dywedodd y byddai'r Bwrdd yn ystyried trafnidiaeth yn ei gyfarfod nesaf. Bydd y Bwrdd hefyd yn ystyried sut y caiff cyllid yr Undeb Ewropeaidd ei ddefnyddio i drechu tlodi. Soniodd y Gweinidog am y diffiniad eang o symudedd cymdeithasol a'r angen i ddefnyddio ein holl ysgogiadau i sicrhau bod mwy o bobl yn cael swyddi cynaliadwy. Rhoddodd y Gweinidog sylwadau ynghylch y gwaith y mae partneriaid cymdeithasol yn ei wneud i gefnogi pobl a chadarnhaodd y byddai ganddi ddiddordeb mewn gwybod sut y mae problemau sy'n ymwneud â threchu tlodi'n cael eu hystyried. O ran y broblem sy'n ymwneud â phobl yn cael gwaith, cyfeiriodd y Gweinidog at y cynllun Esgyn sy'n darparu cyfleoedd i bobl nad ydynt yn barod ar gyfer gwaith, er mwyn eu helpu i gael swyddi. Soniodd am bwysigrwydd gwaith ymgysylltu rhwng busnesau ac ysgolion a sefydliadau addysg uwch ac am werth interniaethau, a thynnodd sylw at y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan Airbus. Gofynnodd a oes awydd ymhlith y sefydliadau y mae Aelodau'r Cyngor yn eu cynrychioli i ymgysylltu yn y modd hwn. Dywedodd y Gweinidog fod gan bartneriaid yn y sector preifat rôl i'w chwarae o safbwynt helpu pobl mewn aelwydydd ag incwm is, a dywedodd y byddai ganddi ddiddordeb mewn cael gwybod sut y mae'r Cyngor yn ystyried contractau dim oriau a'r cyflog byw. Nododd y Gweinidog y pwynt a wnaed gan Paul Byard ynghylch prosiectau llwyddiannus, a chytunodd i ddarparu mwy o wybodaeth am hynny yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

| |
|---|
| Gweithredu: Darparu gwybodaeth am brosiectau llwyddiannus. |

**6. Diwygio llywodraeth leol a datblygu economaidd**

6.1 Croesawodd y Prif Weinidog y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i'r cyfarfod gan nodi mai Gweithgor Gweithredol y Cyngor a oedd wedi gofyn am yr eitem hon.

6.2 Cyflwynodd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus y papur gan nodi'r achos cryf a wnaed gan Gomisiwn Williams dros ddiwygio llywodraeth leol, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd ei fod yn symud ymlaen o safbwynt deddfu a bod Bil Llywodraeth Leol (Cymru) wedi cwblhau Cyfnod 1 yn y Cynulliad. Bydd copi drafft o Fil Uno Llywodraeth Leol yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref. Os na ellir cael consensws ynghylch diwygio llywodraeth leol, cadarnhaodd y bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ei map ei hun. Bydd hynny'n unol ag Opsiwn 1 a gaiff ei ffafrio yn adroddiad Comisiwn Williams, oni chyflwynir achos cryf dros weithredu'n wahanol.

6.3 Atgoffodd y Gweinidog Aelodau'r Cyngor ynghylch diwygiadau pwysig eraill a gyhoeddwyd ym Mhapur Gwyn mis Chwefror, a fydd yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol lunio cymunedau ac arloesi. Cyfeiriodd at yr adroddiad a ddisgwylir gan Keith Edwards ynghylch cwmnïau cydfuddiannol a chydweithredol, a dywedodd y byddai cyfleoedd i awdurdodau lleol ymateb i'r sefyllfa ariannol bresennol gan ddefnyddio dulliau arloesol o gyflawni.

6.4 Cyfeiriodd y Gweinidog at adroddiad KPMG ynghylch cost llywodraeth leol a'r broses o weinyddu llywodraeth leol, a goblygiadau hynny i'r gymuned fusnes. Nododd sut y gellid defnyddio'r gwaith hwn i archwilio'r modd y gall cynghorau cymuned gefnogi datblygu economaidd a'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.

6.5 Agorodd y Prif Weinidog yr eitem hon i'w thrafod yn ehangach. Croesawodd Iestyn Davies y rhan o'r adroddiad a oedd yn ymwneud â diwygio a datblygu economaidd, a soniodd y bydd yn bwysig canolbwyntio ar economi sy'n seiliedig ar le. Mae'n rhywbeth sy'n newid ac sy'n ymddangos ar ffurf arall, er enghraifft drwy Ddinas-ranbarthau. Soniodd am y ffocws ar y sector cymdeithasol o safbwynt darparu gwasanaethau, ac roedd hefyd yn gobeithio gweld partneriaeth go iawn â'r sector preifat wrth symud ymlaen. Cadarnhaodd fod disgwyliad yn aml ymysg busnesau bach a chanolig y bydd awdurdodau lleol yn darparu cymorth i sicrhau twf. Gofynnodd a oedd unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gyfrifol yn statudol am ddatblygu economaidd.

6.6 Dywedodd y Prif Weinidog nad oedd hynny wedi'i ystyried ac nad oedd gwaith cyflawni o safbwynt datblygu economaidd, dan y strwythur presennol, wedi bod yn gyson ar draws awdurdodau lleol. Nododd nad yw ffiniau awdurdodau lleol yn cyd-fynd â ffiniau datblygu economaidd. Byddai angen i ni archwilio'n ofalus beth y gellid ei gyflawni, ac osgoi gorgyffwrdd â gweithgarwch Llywodraeth Cymru.

6.7 Dywedodd Iestyn Davies y dylai ffurf awdurdodau lleol yn y dyfodol gyd-fynd yn well â ffiniau datblygu economaidd. Ychwanegodd y byddai'n gwerthfawrogi mwy o ffocws ar gymorth i fusnesau bach.

6.8 Dywedodd Derek Walker ei fod yn fodlon â'r pwyslais ar gwmnïau cydfuddiannol a chydweithredol yn y Papur Gwyn. Awgrymodd y gallai asedau gael eu trosglwyddo i fusnes cymdeithasol er mwyn darparu sicrwydd cyfochrog ar gyfer benthyciadau a allai gryfhau'r sector.

6.9 Roedd Emma Watkins am gofnodi cefnogaeth Cydffederasiwn Diwydiant Prydain i waith diwygio llywodraeth leol, a nododd fod heriau'n gysylltiedig â hynny. Roedd yn argymell y dylid pwyllo o safbwynt rhoi pwerau statudol ynghylch datblygu i awdurdodau lleol, gan awgrymu y gallai hynny arwain at ddryswch o safbwynt pwy sy'n gyfrifol am gyflawni.

6.10 Ychwanegodd Robert Lloyd Griffiths ei gefnogaeth gan nodi ei fod yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau canlyniad llwyddiannus yn y maes hwn.

6.11 Nododd Martin Mansfield fod cyflogaeth uniongyrchol yn y sector cyhoeddus yn bwysig i rai ardaloedd yng Nghymru er mwyn sicrhau cyflogaeth leol a safonau byw. Mae'r papur yn rhoi cyfle i ad-drefnu awdurdodau lleol a sicrhau eglurder ynghylch beth sy'n cael ei wneud a chan bwy.

6.12 Cadarnhaodd Paul Byard ei fod yn cefnogi'r diwygio. Nododd y dewisiadau anodd y mae angen eu gwneud yn aml ac awgrymodd y gellid dysgu gwersi o'r dulliau a ddefnyddir gan ddiwydiant, er enghraifft y dull o ymdrin ag arbedion effeithlonrwydd graddol.

6.13 Soniodd y Gweinidog am y rôl hanfodol y bydd y broses o ddiwygio llywodraeth leol yn ei chwarae o safbwynt llunio lleoedd. Soniodd am y cydweithredu rhwng mentrau cymdeithasol a'r gymuned fusnes leol, megis Cartrefi RCT yn ymgysylltu â busnesau Pen-y-graig i ddarparu cysylltiad di-wifr rhad ac am ddim â'r rhyngrwyd yng nghanol y dref. Ychwanegodd fod cyfle i weithio ar y cyd â busnesau bach. Yn rhan o'r gwaith o ddiwygio llywodraeth leol dywedodd y Gweinidog ein bod yn ailadeiladu'r berthynas rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol ers i ni etifeddu strwythur a oedd yn cynnwys 22 o awdurdodau lleol.

6.14 Yn ôl y Gweinidog, mae diwygio awdurdodau lleol yn cynnig cyfle i gael y cydbwysedd cywir rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol o safbwynt y dull o ymdrin â datblygu economaidd. Cyfeiriodd at drafodaethau mewnol ynghylch hynny, a'r ffaith y byddai'n gwerthfawrogi cefnogaeth y Cyngor ynghylch y mater hwn. Adleisiodd y Gweinidog sylw Martin Mansfield ynghylch pwysigrwydd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i rai ardaloedd a thynnodd sylw at bwysigrwydd cynllunio'r gweithlu yn well. Cytunodd y Gweinidog y bydd yn werth dysgu o enghreifftiau o reoli arbedion effeithlonrwydd yn y sector preifat, a sut y gallai'r enghreifftiau hynny fod yn berthnasol i rai swyddogaethau yn y sector cyhoeddus, ac y bydd hefyd yn werth dysgu o ddata ac arfer gorau a nodir yn adroddiad KPMG pan gaiff yr astudiaeth honno ei chyhoeddi.

**7. Unrhyw fater arall**

7.1 Gofynnodd y Prif Weinidog a oedd unrhyw fater arall.

7.2 Cyfeiriodd y Prif Weinidog at y papur i'w nodi – Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru – gan ddweud bod y papur wedi'i ddiweddaru gan ymgynghori â'r partneriaid cymdeithasol ac y byddai'n awr yn cael ei gyhoeddi.

7.3 Dywedodd y Prif Weinidog y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r angen i gyhoeddi communiqué.

7.4 Cadarnhawyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf fyddai 5 Hydref 2015.

7.5 Daeth y Prif Weinidog â'r cyfarfod i ben gan ddiolch i Aelodau'r Cyngor am eu presenoldeb a'u cyfraniadau.